GWERSYLL YR URDD, LLANGRANNOG

Mae'r Gwersyll wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i fuddsoddiad o dros £5.5 miliwn gyda chymorth Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Sportlot, LRF-Cyngor Ceredigion, LRF Cynulliad Cenedlaethol, EAGGF, y Garfield Weston Foundation a'r Principality.

Mae'r Ganolfan Hamdden wedi agor ers tair mlynedd a'r bloc cysgu newydd, Cilborth, wedi bod mewn defnydd ers mis Chwefror 2004. Mae'r Ganolfan Treftadaeth a Chanolfan Addysg newydd agor, sef y rhan olaf o'r datblygiadau i'w cwblhau. Bydd dathliad swyddogol wedi i'r holl ddatblygiadau gael eu hagor a rhedeg yn esmwyth. Yn ogystal, bydd y Gwersyll yn dathlu 75 mlynedd eleni – cynhaliwyd y Gwersyll cyntaf yn Llangrannog ym 1932.

Bellach, gyda chyfleusterau newydd a dros 25,000 o ymwelwyr y flwyddyn, mae gan Wersyll Llangrannog y potensial i wneud gwahaniaeth mawr i lefelau cyfranogiad plant ac ieuenctid yn ein diwylliant, yr amgylchedd a'r byd chwaraeon. Hyderwn i'r cyfleusterau newydd brofi i fod yn ased gwerthfawr i'r Gwersyll a'i hymwelwyr o bob cwr o Gymru a'r byd, ynghyd â'r gymuned leol.

Llangrannog – Yr Ardal

Saif Gwersyll yr Urdd, Llangrannog tua milltir a hanner o bentre Llangrannog, a thua milltir o bentre Pontgarreg ar arfordir Ceredigion ar fferm Cefncwrt. Mae Cefncwrt yn fferm 140 erw sy'n berchen i'r Urdd. Defnyddia'r Gwersyll 50 erw dir y fferm, ac mae'r gweddill ar rent i ffermwr lleol.

Mae trefi Aberteifi, Aberaeron, Castellnewydd Emlyn a Llandysul o fewn 20 munud o deithio, Caerfyrddin ac Aberystwyth ¾ awr, Abertawe 1¼ awr a Chaerdydd 1¾ awr.

Mae'r ardal yn wledig iawn gyda golygfeydd o harddwch naturiol ym mhob man. Enghraifft o hyn yw'r olygfa a geir o'r Gwersyll. Gellir manteisio ar y golygfeydd hyn wrth gerdded yr amryw lwybrau cyhoeddus a geir yn yr ardal naill ai ar hyd yr arfordir neu yn y wlad. Mae Mynyddoedd y Preselau hanner awr i ffwrdd.
Mae Cyngor Ceredigion ar hyn o bryd yn ceisio creu llwybr yr holl ffordd ar hyd arfordir y Sir o'r Ddyfi i'r Teifi. Bydd rhan o'r llwybr hwn yn croesi tir yr Urdd.

Mae tri chapel yn yr ardal sef Capel y Wig a Bryn Moriah (Annibynwyr) a Phenmorfa (Methodistiaid), ac mae eglwys yn Llangrannog.

Yn y pentref mae timau pêl-droed (sy'n rhedeg 4 tîm) a chlwb rygbi yn Aberteifi, Castell Newydd Emlyn ac Aberaeron sydd ddim ond 12 milltir i ffwrdd. Yn y trefi hyn mae canolfannau chwaraeon gyda chyrtiau sboncen yn Aberteifi a Castell Newydd Emlyn. Mae cwrs golff tua dwy filltir o'r Gwersyll (9 twll) a hefyd yn Aberteifi (18

twll). Mae pwll nofio, llethr sgïo a chanolfan hamdden yn y Gwersyll ac mae croeso i staff ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

Mae ysgol gynradd Categori A ym Mhontgarreg gyda thua 60 o blant ac ysgol gyfun ddwyieithog yn Llandysul ac ysgolion uwchradd yn Aberteifi, Castell Newydd Emlyn ac Aberaeron. Mae'r feddygfa leol yng Nghei Newydd (tua 15 munud i ffwrdd). Mae ysbytai yn Aberystwyth a Chaerfyrddin (tua 45 munud i ffwrdd).

Mae ansawdd bywyd yn yr ardal yn uchel iawn gyda thor-cyfraith yn isel iawn.

Mae dwy dafarn yn Llangrannog – Y Ship a'r Pentre Arms a cheir nifer o gymdeithasau yn cwrdd yn rheolaidd yn y neuadd leol a adnewyddwyd bedair mlynedd yn ôl ar ôl derbyn grant Loteri am £200,000.

Mae'r Gwersyll yn cyflogi 85 ac yn cyfrannu tua £2.5 miliwn i'r economi lleol yn ôl Astudiaeth Dichonoldeb (*Feasability Study*) a wnaethpwyd yn ddiweddar. O ganlyniad i hyn mae'r Gwersyll yn chwarae rhan bwysig yn yr ardal. Mae'r llethr ar agor at ddefnydd cymunedol a'r pwll nofio ar agor unwaith yr wythnos i blant lleol. Mae'r ganolfan hamdden ar agor tair gwaith yr wythnos ac mae'r Ganolfan Treftadaeth hefyd ar agor at ddefnydd cymunedol.

Yn ychwanegol i hyn, mae'r Gwersyll yn bwysig yn ariannol i'r Urdd, gyda gwahaniaeth ariannol blynyddol y Gwersyll yn cael ei ddefnyddio i redeg yr Urdd yn genedlaethol.

Mae'r Gwersyll yn llawn am 50 wythnos y flwyddyn a'r amserlen am y 18 mis nesaf wedi'i threfnu'n barod.

Mae Swyddog Datblygu Ceredigion yn gweithio o'r Gwersyll hefyd ynghyd â'r Swyddog Datblygu Chwaraeon.